Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio SJR-04-03(p.2)

Dyddiad: Dydd Mercher 15 Hydref 2003

Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Teitl: *The Draft Annual Reports to Tenants Determination 2003*

Diben

Rhoi gwybod i'r Pwyllgor am gynnig Llywodraeth y Cynulliad i gyhoeddi Penderfyniad *Report to Tenants* newydd, o dan Adran 167 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.

Crynodeb/Argymhelliad

Bydd y *Report to Tenants Determination 2003* drafft yn diddymu'r gofyniad yn y *Report to Tenants (Wales) Determination 1995* i bob awdurdod lleol gyhoeddi adroddiad i denantiaid ar berfformiad blynyddol. I raddau helaeth mae'r gofyniad hwn wedi'i ddisodli gan rwymedigaeth awdurdodau o dan Raglen Cymru ar gyfer Gwella i gyhoeddi crynodeb o'u Cynllun Gwella blynyddol ar gyfer eu tenantiaid. Argymhellir bod y Pwyllgor yn nodi'r adroddiad hwn.

Y cefndir

Mae Adran 167 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 yn ei gwneud yn ofynnol yn statudol i awdurdodau lleol roi adroddiad blynyddol i bob tenant am berfformiad rheoli tai'r awdurdod. Yng Nghymru, mae'r gofynion manwl wedi'u nodi yng Nghylchlythyr y Swyddfa Gymreig 15/95, sy'n ymgorffori'r *Report to Tenants (Wales) Determination 1995*.

Ym mis Mawrth eleni, ysgrifennodd Tony McNulty AS, sef Is-Ysgrifennydd Gwladol Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog (ODPM), at y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio i ddweud bod Llywodraeth y DU yn bwriadu diddymu Adran 167 y Mesur Tai arfaethedig. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod Crynodebau Cynlluniau Gwella awdurdodau lleol, o dan Raglen Cymru ar gyfer Gwella a'r hyn sy'n cyfateb iddi yn Lloegr, wedi cymryd lle'r wybodaeth a geir mewn adroddiadau i denantiaid i raddau helaeth.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cefnogi'r penderfyniad hwn. Ysgrifennodd swyddogion i bob awdurdod lleol, i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac i Ffederasiwn Tenantiaid Cymru, i roi gwybod iddynt y byddai Llywodraeth y Cynulliad yn ceisio Penderfyniad *Report to Tenants*

newydd. Cadarnhaodd y llythyr hwn mai effaith y Penderfyniad newydd fyddai peri bod y gwaith o baratoi *Report to Tenants* blynyddol ar wahân yn wirfoddol, yn hytrach nag yn orfodol. Cytunwyd ar yr egwyddor hon hefyd gyda chynrychiolwyr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Ffederasiwn Tenantiaid Cymru yng nghyfarfod o'r Gr•p Gwelliant Parhaus mewn Tai ym mis Mawrth eleni.

O dan Raglen Cymru ar gyfer Gwella, rhaid i awdurdodau lunio Cynllun a Chrynodeb Gwella erbyn 30 Mehefin bob blwyddyn. Rhaid i'r Crynodeb dargedu'r cyhoedd. Rhaid iddo sôn am ganlyniadau dangosyddion perfformiad y Cynulliad Cenedlaethol a'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer gwelliant. Ymhlith Dangosyddion Perfformiad tai Cynulliad Cenedlaethol Cymru (gweler Atodiad 1) mae wyth sy'n ymwneud yn benodol â thenantiaid awdurdodau lleol. Mater i'r awdurdod lleol yw manylion cynnwys Crynodebau'r Cynlluniau Gwella. Mae ein Canllawiau yn annog awdurdodau i roi adroddiad ar ddangosyddion eraill a nodir gan denantiaid a phobl leol. Mae Dangosyddion Perfformiad Cymru felly yn ddigon o gofnod perfformiad i denantiaid.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi comisiynu adolygiad cynhwysfawr o fesurau perfformiad ar gyfer llywodraeth leol. Bydd hyn yn rhoi cyfle i denantiaid a chynrychiolwyr awdurdodau lleol awgrymu Dangosyddion Perfformiad newydd ar gyfer tai cyngor. Mae cyfres o grwpiau ymgynghorol wedi'u sefydlu, sy'n cynnwys cynrychiolwyr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Ffederasiwn Tenantiaid Cymru. Bydd y grwpiau hyn yn awgrymu dangosyddion tai newydd, gan gynnwys y dangosyddion hynny y dylid eu cofnodi ar gyfer tenantiaid yng nghrynodeb blynyddol y Cynllun Gwella. Mae'r Uned Ddata Llywodraeth Leol, sy'n cydgysylltu'r adolygiad hwn, yn bwriadu ymgynghori ar y mesurau diwygiedig haf nesaf. Byddai awdurdodau lleol yn dechrau defnyddio'r mesurau newydd o fis Ebrill 2005.

Mae Penderfyniad *Report to Tenants* newydd wedi'i ddrafftio i Gymru (Atodiad 2). Mae Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu cyflwyno hwn drwy ddefnyddio Rheol Sefydlog 27. Bydd y Penderfyniad newydd hwn yn cael gwared ar yr orfodaeth ar awdurdodau lleol i gyhoeddi *Report to Tenants* ar wahân yn ogystal â'r gofyniad i gyhoeddi Crynodeb o'u Cynllun Gwella. Ond bydd awdurdodau yn parhau i allu cyhoeddi *Report to Tenants* ar wahân pe baent am wneud hynny.

Cydymffurfio

Bydd y penderfyniad yn cael ei brosesu o dan Reol Sefydlog 27. Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio fydd yn gyfrifol am Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989. O dan Adran 33 Deddf Llywodraeth Cymru 1998, gall y Cynulliad ystyried unrhyw fater sy'n effeithio ar Gymru a gwneud sylwadau priodol am y mater.

Edwina Hart AC MBE

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio